<u>**Pwyllgor Datblygu Economaidd**</u> <u>**EDC 18-02(p6)**</u>

**Dyddiad:** **12 Rhagfyr 2002**
**Amser:** **9.00am – 12.30pm**

**Lleoliad:** **Ystafelloedd Pwyllgor 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

**Teitl:** **Dyfodol y Cronfeydd Strwythurol**

**Diben**

1. Mae'r papur yn darparu adroddiad i'r Aelodau ar seminar diweddar Llywodraeth y Cynulliad ar ddyfodol y cronfeydd strwythurol.

**Crynodeb/Argymhellion**

2. Cynhaliwyd y seminar yn Neuadd George, Abertawe ar 18 Hydref. Bu'r Prif Weinidog yn annerch y gynulleidfa, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth o gyrff yng Nghymru gan gynnwys Aelodau o'r Cynulliad a Chynghorwyr.
3. Roedd siaradwyr eraill yn cynnwys swyddogion o Gyfarwyddiaeth Polisi Rhanbarthol yr Adran Masnach a Diwydiant, a amlinellodd gynnig y Llywodraeth i lansio ymarfer ymgynghori cyn hir i helpu i fwydo safbwynt Llywodraeth y DU ar ddyfodol y cronfeydd.
4. Y bwriad yw y bydd canfyddiadau'r seminar o gymorth i'r Prif Weinidog pan fydd yn mynychu cyfarfod grwp blaen-astudiaethau'r cronfeydd strwythurol ym Mrwsel, o dan arweinyddiaeth y Comisiynydd Michel Barnier, ym mis Chwefror.

**Amserlen Fras**

| | |
|---|---|
| Ymarfer ymgynghori Llywodraeth y DU | gaeaf 2002-03 |
| Y Comisiynydd Michel Barnier i gadeirio cyfarfod y Prif Weinidogion Rhanbarthol ym Mrwsel; Y Prif Weinidog i'w fynychu | Chwefror 2003 |
| Y Comisiwn i gyhoeddi ail ddiweddariad yr Ail Adroddiad ar Gydlyniant Economaidd a Chymdeithasol | [Ionawr] 2003 |
| Trydydd seminar y Comisiwn ar ddyfodol y cronfeydd strwythurol (symleiddiad) | dechrau 2003, dyddiad i'w gadarnhau |

Y Comisiwn i gyhoeddi'r Trydydd Adroddiad Ail hanner 2003
ar Gydlyniant Economaidd a
Chymdeithasol, gan gynnwys cynigion
cadarn ar gyfer ôl 2006

**Cydymffurfio**

5. Llywodraeth y DU sydd yn arwain, fel Aelod-Wladwriaeth, datblygiad a chydlyniad y polisi strwythurol a chydlyniant. Yr Adran Masnach a Diwydiant yw prif Adran Llywodraeth y DU o ran materion cydlynu; tra bo'r Concordat ar Gydlynu Materion Polisi yr Undeb Ewropeaidd yn nodi'r canlynol:

*"Participation in formulation of UK Policy (including Resolution of Differences)*

B3.4 It is the Government's intention that Ministers and officials of the devolved administrations should be fully involved in discussions within the UK Government about the formulation of the UK's policy position on all issues which touch on matters which fall within the responsibility of the devolved administrations."

6. Mae'r Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau, gweithrediaeth yr Alban a Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am reoli rhaglenni'r cronfeydd strwythurol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dirprwyo rheolaeth prif raglenni cronfeydd strwythurol Cymru i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r Cabinet yn derbyn cyngor ar faterion polisi strwythurol a chydlyniant gan yr Is-adran materion Ewropeaidd ac Allanol.
7. Nid oes unrhyw faterion ariannol yn deillio o'r papur hwn.

**Enwau cyswllt**

8. Cronfeydd Strwythurol ôl-2006: Jackie Brown Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol, est 3157. jacqueline.brown@wales.gsi.gov.uk.

# ADRODDIAD AR SEMINAR YNGLYN Â DYFODOL Y CRONFEYDD STRWYTHUROL YNG NGHYMRU A GYNHALIWYD

# YN NEUADD SIÔR, NEUADD Y DREF, ABERTAWE

# DYDD GWENER, 18 HYDREF 2002

**ADRODDIAD AR SEMINAR LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU YNGLYN Â DYFODOL Y CRONFEYDD STRWYTHUROL**

Cynhaliwyd yn Neuadd Siôr, Abertawe ar ddydd Gwener, 18 Hydref 2002

**Cyflwyniad a chrynodeb**

1. Trefnwyd seminar undydd anffurfiol gan Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cyfle i fudd-ddalwyr gael trafodaeth ynglyn â dyfodol y cronfeydd strwythurol. Ymhlith y siaradwyr yr oedd Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan AC, ac arbenigwyr polisi rhanbarthol Ewropeaidd o Gymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol (gweler Atodiad A). Daeth oddeutu 60 o wahoddedigion i'r sesiwn. Yn eu plith yr oedd Aelodau o'r Cynulliad, Cynghorwyr, swyddogion llywodraeth leol a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (mae rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol yn y sesiwn yn Atodiad B). Yr oedd trafodaethau'r dydd yn canolbwyntio ar y pwysigrwydd o gael partneriaid yng Nghymru i weithio gyda'i gilydd i gael y gorau i Gymru mewn Undeb Ewropeaidd ehangach. Ond ni ddaeth y budd-ddalwyr i farn gadarn ynglyn â pharhad (neu beidio) y lefel bresennol o ymyriad sydd gan yr Undeb Ewropeaidd ym mholisi rhanbarthol Cymru. Tynnwyd sylw gan y rhai a oedd yn bresennol at y ffaith bod gan y cronfeydd strwythurol bwysigrwydd ehangach trwy'r partneriaethau a grëwyd a thrwy'r dulliau gweithredu arloesol y gallent eu meithrin mewn datblygu polisi rhanbarthol. Nodwyd y byddai safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru a budd-ddalwyr eraill yn sicr o ddatblygu wrth i'r Undeb Ewropeaidd fynd trwy newidiadau gwleidyddol a gweinyddol mawr.

**Trosolwg o'r Cyflwyniadau**

2. Wrth groesawu'r cynrychiolwyr i'r seminar, eglurodd Gary Davies, Pennaeth yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol, ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cynulliad Cymru glywed barn partneriaid yng Nghymru os yw'r Cynulliad am helpu i lunio rhaglen y Deyrnas Gyfunol, ac yn y pendraw rhaglen y Comisiwn Ewropeaidd, ar reoliadau cronfeydd strwythurol a chronfeydd cydlynol y dyfodol. Cefnogwyd hyn gan hwyluswr y seminar, Gareth Williams, a bwysleisiodd mai pwrpas y dydd oedd ystyried anghenion Cymru ar ôl 2006 yn hytrach na chanolbwyntio'n ormodol ar y rhaglenni presennol.

3. Yn ei anerchiad i'r seminiar, diolchodd Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, i'r siaradwyr allweddol gan osod y drafodaeth ar ddyfodol y cronfeydd strwythurol yng nghyd-destun yr her o weld yr Undeb Ewropeaidd yn ehangu. Eglurodd mai pwrpas y diwrnod oedd rhoi cyfle i'r cynrychiolwyr fynegi eu barn, waeth pa mor betrus oedd eu barn. Cyfeiriodd at y newidiadau mawr sy'n digwydd yn yr Undeb Ewropeaidd ym maes diwydiant, gweinyddiaeth a gwleidyddiaeth ar hyn o bryd. Pwysleisiodd y Prif Weinidog y pwysigrwydd o gael deialog rhwng y rhanbarthau yn ogystal â rhwng y rhanbarthau â'r aelod wledydd. Dywedodd iddo gael gwahoddiad gan y Comisiynydd Barnier i fynd i gyfarfod ar gyfer penaethiaid rhanbarthol yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Dywedodd y Prif Weinidog ei bod yn bwysig cael gwybod beth yw'r farn sydd yn dod yn amlwg ymhlith budd-ddalwyr Cymru, er y bydd safbwyntiau yn datblygu wrth i amser fynd heibio, ac mae hynny'n tanlinellu'r pwysigrwydd o gael trafodaethau parhaus ynglyn â'r materion hyn.

**Yr Adran Fasnach a Diwydiant**

4. Rhoddodd John Neve a David Rawlins, o Gyfarwyddiaeth Polisi Rhanbarthol a Datganoli yr Adran Fasnach a Diwydiant, grynodeb o safbwynt presennol llywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Eglurodd John Neve swyddogaeth eu Gweinidogion o arwain ar ddatblygu safbwynt y Deyrnas Gyfunol. Yr oedd hyn yn cynnwys ceisio ystod eang o wahanol safbwyntiau budd-ddalwyr ar hyd y lled y Deyrnas Gyfunol. Bydd ymarfer ymgynghori yn cael ei lansio gan yr Adran Fasnach a Diwydiant cyn bo hir i gyflawni hyn. Dyma rai o'r cwestiynau sylfaenol fydd angen mynd i'r afael â nhw:

- Sut y gall y cronfeydd strwythurol fynd i'r afael yn well â rhaglen Lisbon
- Sut i wella effeithiolrwydd y cronfeydd strwythurol a gwerthuso eu heffaith yn well; a
- Sut i leihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â'r cronfeydd strwythurol.

5. Yna rhoddwyd cyflwyniad gan David Rawlins a ddangosodd sefyllfa'r Deyrnas Gyfunol yn ei pherthynas ag Undeb Ewropeaidd ehangach gan ddefnyddio ffigurau yn seiliedig ar Undeb Ewropeaidd o 27. Yr oedd felly yn cynnwys Romania a Bwlgaria er i'r gwledydd hyn gael eu gadael allan o'r Comisiwn yn ei adroddiad diweddaraf ar bolisi cydlynol, (cyfeirnod: COM (2002) 46, 30.1.02). Hefyd yr oedd y cyflwyniad yn tynnu sylw at y gwahaniaethau sydd rhwng rhanbarthau *o fewn* y Deyrnas Gyfunol. O ranbarthau Amcan 1 presennol y Deyrnas Gyfunol, Cernyw yn unig sy'n edrych yn debygol o barhau i fod yn gymwys ar ôl 2006 o dan y meini prawf presennol. Ond o safbwynt yr Undeb Ewropeaidd yn ei chyfanrwydd, byddai parhau i ddefnyddio'r meini prawf hynny yn gweld y boblogaeth a oedd yn dod o dan Amcan 1 yn llamu o 84 miliwn yn yr Undeb Ewropeaidd–15 i 183 miliwn. Pwysleisiodd hefyd bod newidiadau eraill, yn ogystal ag ehangu, a allai ddylanwadu ar ffurf y cronfeydd strwythurol. Roedd y dylanwadau hynny yn cynnwys Cynhadledd Rhynglywodraethol 2004 a'r Comisiwn Newydd sydd i'w benodi yn 2004. Ond yr oedd yr Adran Fasnach a Diwydiant yn gobeithio y byddid yn dod i gytundeb ynglyn â'r cronfeydd strwythurol ôl-2006 ("Rhaglen 2007") erbyn diwedd 2005.

6. Tynnodd yr Adran Fasnach a Diwydiant sylw at yr Iseldiroedd fel yr unig aelod wlad sydd wedi nodi ei sefyllfa’n gadarn hyd yma. Yr oedd hyn yn seiliedig ar roddi arian strwythurol i neb ond aelod wledydd sydd â Chynnyrch Mewnwladol Crynswth (*GDP*) is na chyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd, gan adael yr aelod wledydd eu hunain i ddelio gyda’u rhanbarthau tlotaf. Ond mewn gwrth-gyferbyniad â hyn, dywedwyd bod y Comisiwn eisiau i’r cronfeydd strwythurol barhau i fod ar gael i’r holl aelod wledydd ond gyda mwy o bwyslais ar y rhanbarthau tlotaf. Hefyd codwyd cwestiwn ynglyn â gallu yr aelod wledydd newydd i ddelio gyda lefelau uchel o arian strwythurol neu gydlynol.

7. Yn dilyn y cyflwyniad, holodd y cynrychiolwyr ynglyn â diwygio meysydd eraill o bolisïau’r Undeb Ewropeaidd. Credid bod angen gwell synergedd rhwng er enghraifft, cyfundrefn cymorth y gwledydd, diwygio *CAP* a’r polisi rhanbarthol. Hefyd gofynnwyd a ddylid codi lefel cyffredinol yr arian sydd wedi eu neilltuo gan yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer cronfeydd strwythurol a chydlynol o’r lefel presennol o 0.45% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth yr Undeb Ewropeaidd. Pe byddai’n cael ei godi, o ble byddai’r arian ychwanegol yn dod. Trafodwyd a oedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i "ailwladoli" y cronfeydd strwythurol yn uniongyrchol. (Cadarnhaodd Yr Adran Fasnach a Diwydiant y byddai ymgynghori yn caniatáu budd-ddalwyr i wneud sylwadau ar y mater hwn fel un opsiwn posibl ymhlith llawer). Dywedodd un cynrychiolydd y dylid cymryd i ystyriaeth bwysigrwydd symbolaidd y cronfeydd strwythurol a’r cyfle a ddaeth yn eu sgil i lunio polisïau rhanbarthol mewn ffyrdd arloesol ochr yn ochr ag ystyriaethau cyllid. Soniwyd nifer o weithiau yn ystod y seminar am rôl y cronfeydd fel lifer yng nghyllid y sector cyhoeddus.

8. Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn â gostyngiad posibl yn nifer y cronfeydd, dywedodd yr Adran Fasnach a Diwydiant mai’r gwahanol Gyfarwyddebau-Cyffredinol yn y Comisiwn oedd yn gyfrifol am y Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewropeaidd (*ERDF*) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (*ESF*). Gall fod tipyn o ffordd i fynd eto cyn y byddir yn debygol o roi unrhyw ystyriaeth i gyfuno’r ddwy gronfa yma.

**Canolfan Astudiaethau Strategaeth a Gwerthusiad**

9. Rhoddodd Jack Malan, partner yn y Ganolfan Astudiaethau Strategaeth a Gwerthusiad, ei farn bersonol ynglyn â rhai o’r materion allweddol y dylai budd-ddalwyr yng Nghymru eu hystyried a chynigodd rai sylwadau ar gyfeiriad posibl y cronfeydd strwythurol yn y dyfodol. Tra’n sôn am yr angen i ddysgu oddi wrth y rhaglenni presennol a rhaglenni’r gorffennol, dywedodd ei bod yn anodd mesur "Gwerth Ychwanegol Cymunedol". Hynny yw, ei bod yn anodd mesur canlyniadau cadarnhaol y cronfeydd strwythurol, er enghraifft eu defnydd i feithrin dull mwy strategol o gynllunio economaidd a manteision eraill nad ydynt yn rhai ariannol. Ei asesiad oedd bod y cronfeydd strwythurol wedi gwneud (ac yn dal i wneud) cyfraniad sylweddol at ddatblygiad rhanbarthol, ond bod perfformiad economaidd Cymru yn parhau i fod tu ôl i berfformiad y Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol. Efallai bod rhai agweddau negyddol ar y cronfeydd, megis y fiwrocratiaeth, y trefniadau punt am bunt cymhleth a’r

diffygion yn rhai o'r rhaglenni llai – rhai o'r meysydd Amcan 2 yn arbennig.

10. Yn fras, eglurodd Jack Malan bod y ddegawd ddiwethaf wedi gweld newid yng nghynllun y rhaglenni cronfeydd strwythurol, wrth iddynt symud oddi wrth ddatblygu isadeiledd tuag at yr amgylchedd cynhyrchiol. Yr oedd hyn yn adlewyrchu bod llai o angen am brosiectau sy'n delio gyda dirywiad diwydiannol a bod cydnabyddiaeth gynyddol o ddatblygu ar raddfa byd eang ac o ddatblygu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Tra'n cytuno â'r farn gyffredinol bod dyfodol Amcan 1 at y dyfodol yn sicr, gyda'r un ffocws ag sydd ganddo ar hyn o bryd (y rhanbarthau tlotaf ar hyd a lled yr Undeb Ewropeaidd), yr oedd arwyddion pendant y byddai'r Amcan 2 diwygiedig yn golygu mwy o hyblygrwydd fel y gellid mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

11. Yng Nghymru, yr oedd Jack Malan o'r farn bod pwysiad y blaenoriaethau yn gywir a bod cyfeiriad strategol rhaglenni Amcan 1 a 2 yn briodol i anghenion Cymru. Ond pwysleisiodd yr angen am brosiectau sydd wedi eu hanelu'n llwyr at gyflawni y nodau strategol. Yn ei brofiad ef yr oedd y rhaglenni mwyaf llwyddiannus ar hyd a lled yr Undeb Ewropeaidd yn tueddu i fod mewn rhanbarthau sy'n croesawu ansawdd bywyd a datblygiad cynaliadwy fel prif amcanion, a lle roedd y rhaglen yn cwmpasu amrywiaeth o fuddiannau, gyda gweinyddu yn cael ei ddatganoli lle bo hynny'n bosib. Dywedodd y byddai'n rhaid i raglenni y dyfodol fynd i'r afael â'r gwaelodlin isel mewn perthynas â rhanbarthau eraill y Deyrnas Gyfunol, gyda segurdod economaidd yn un o'r prif gyfyngiadau ar berfformiad economaidd Cymru a'r posibilrwydd o ddefnyddio'r cronfeydd strwythurol i ddelio gydag eithrio cymdeithasol. Efallai y bydd raid i brosiectau sydd wedi eu bwriadu i fynd i'r afael â'r materion hyn gael eu seilio ar ddyraniad llai o'r cronfeydd strwythurol nag a gafwyd mewn rhaglenni blaenorol. Ond er gwaethaf hyn, gall eu costau cymharol is (o'u cymharu â datblygu isadeiledd) arwain at ganlyniadau da am lai o arian.

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

12. Nododd Tim Hooper rai sylwadau rhagarweiniol ar ran llywodraeth lleol Cymru, gan alw am symleiddio'r rhaglenni yn y dyfodol a'u gwneud yn fwy hyblyg. Hoffai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru weld rôl rheoleiddio y Comisiwn yn lleihau, gyda'r Comisiwn yn gweithredu yn fwy fel hwylusydd. Yr oedd y Gymdeithas yn annog Llywodraeth y Cynulliad i ddefnyddio'r holl sianeli sydd ar gael, trwy gydweithrediad â Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol a thrwy Bwyllgor y Rhanbarthau a chymdeithasau rhanbarthol eraill, yn ogystal â thrwy swyddfa y Cynulliad ym Mrwsel. Mae copi o bapur anffurfiol a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn Atodiad C.

**Addysg a Dysg Cymru, ELWa**

13. Dywedodd Teresa Holdsworth y dylid defnyddio polisïau rhanbarthol i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau, o ystyried bod y bwlch rhwng rhanbarthau "gwybodaeth-gyfoethog" a

"gwybodaeth-dlawd" yn lledu. Dylai buddsoddi mewn pobl fod yn flaenoriaeth o ystyried y manteision i'r economi wrth roi'r cyfarpar i'r gweithlu gyflawni anghenion busnes. Felly, dylai cronfeydd strwythurol gefnogi gweithgareddau sy'n gostwng y perygl o eithrio cymdeithasol. Gan bwysleisio pwynt a wnaed gan bobl eraill yn ystod y dydd, dywedodd Teresa mor bwysig yw gwerthuso'r rhaglenni presennol wrth roi arweiniad i benderfyniadau at y dyfodol.

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**

14. Gofynnodd Phil Flander a ddylai partneriaid fod yn fwy uchelgeisiol wrth ddefnyddio'r cronfeydd strwythurol i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yng Nghymru. Er enghraifft, cryfhau'r cysylltiadau rhwng y cronfeydd strwythurol â'r rhaglen ddeng mlynedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Dywedodd y dylid gwneud mwy o ddefnydd o'r cronfeydd strwythurol i fynd i'r afael â blaenoriaethau thematig, er enghraifft Ymchwil a Datblygu, yr amgylchedd a'r economi gwybodaeth, gan wneud defnydd da o Fentrau Cymunedol i archwilio syniadau y gellid wedyn eu prif ffrydio ar ôl 2006.

**Crynodeb**

15. Wrth grynhoi gweithgareddau'r diwrnod, dywedodd Gareth Williams y cafwyd trafodaethau eang iawn ac yr oedd o gymorth mawr bod y cynrychiolwyr wedi canolbwyntio ar yr ystyriaethau ehangach sy'n ymwneud â'r cronfeydd strwythurol. Ymddangosai fod pawb yn cytuno y byddai Cymru yn parhau i fod angen arian cyhoeddus ar gyfer datblygu rhanbarthol ar ôl 2006. Yr oedd y ddadl ynglyn â dyfodol y cronfeydd strwythurol yn gyfle i ystyried y cwestiwn beth fyddai'r ffynhonnell orau ar gyfer yr arian yn y dyfodol. Yr oedd yn hanfodol gwneud y gorau o'r rhaglenni presennol; ac roedd angen rhoi sylw manwl i gynllun y rhaglenni yn y dyfodol er mwyn cael cydbwysedd a gwerth ychwanegol, lleihau biwrocratiaeth a sicrhau arfer orau. Caeodd ben y mwdwl ar drafodaethau'r dydd, diolchodd i'r siaradwyr ac awgrymodd y byddai Cymru mewn sefyllfa well i gyflawni ei hamcanion pe byddai'n gallu siarad gyda llais unedig ynglyn â'i hanghenion ôl 2006.

**Materion Ewropeaidd ac Allanol**
**Hydref 2002**

*Mae Fersiwn Saesneg y papur hwn yn cynnwys atodiadau. Yn anffodus nid yw'r atotiadau hyn ar gael yn Gymraeg.*